## Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 03-02(p4)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 22 Mai 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADOLYGIAD O SIPSIWN CRWYDROL

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am y camau sydd wedi'u cymryd ers y cyfarfod diwethaf, yn awgrymu rhaglen ar gyfer casglu tystiolaeth ac yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

### Ymgynghorydd arbenigol

2. Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer swydd yr ymgynghorydd arbenigol ar 1 a 2 Mai. Roedd safon yr ymgeiswyr yn uchel. Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd y panel gynnig y swydd i Dr Elizabeth Jordan, Cyfarwyddwraig Rhaglen Addysg ar gyfer Pobl Grwydrol yr Alban ac uwch-ddarlithydd yn Adran Astudiaethau Cydraddoldeb ac Addysg Arbennig Prifysgol Caeredin. Ar hyn o bryd, mae'r Dr Jordan yn paratoi'r Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Gynhwysiant mewn Addysg i Bobl Grwydrol ar gyfer Llywodraeth yr Alban ac wedi cyfrannu at Ymchwiliad Pwyllgor Cyfle Cyfartal Senedd yr Alban i Sipsiwn a Phobl Grwydrol.

3. Yn ogystal, penderfynodd y panel gynnig swydd yr ymgynghorydd cyswllt i Tim Wlison sy'n gweithio i Grwp Safleoedd i Sipsiwn yng Nghaerdydd fel swyddog cyswllt llety. Mae gan Tim Wilson wybodaeth fanwl am gymuned y sipsiwn Crwydrol yng Nghymru a bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu'r pwyllgor a'r ymgynghorydd arbenigol i baratoï'r adolygiad, er enghraifft, trwy gysylltu â chymuned y Sipsiwn Crwydrol, gan hwyluso cyfarfodydd gydag unigolion a grwpiau o Sipsiwn Crwydrol a helpu i gasglu tystiolaeth.

4. Bydd Dr Jordan a Mr Wilson yn dod i gyfarfod y pwyllgor ar 22 Mai.

### Casglu gwybodaeth

5. Yn sgîl cyfarfod â chynrychiolwyr cymdeithasau Pobl Grwydrol yn Nulyn ym mis Ebrill, ac ar ôl cynnal rhagor o drafodaethau, daeth y pwyllgor i'r casgliad y dylid cynnwys pawb sy'n eu

diffinio'u hunain fel sipsiwn crwydrol o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Roedd yn rhaid cydnabod bod nifer o grwpiau gwahanol yn bodoli a bod gan bob un ohonynt anghenion gwahanol. Dylai unrhyw ystyriaeth drafod, er enghraifft, anghenion gweithwyr ffeiriau crwydrol.

6. Mae'r pwyllgor wedi dweud ei fod am fynd ati'n ddiymdroi i nodi agweddau ar y gwasanaethau iechyd ac addysg y gellir gwella arnynt. Roedd yn cydnabod, fodd bynnag, bod y materion sy'n ymwneud â lletya yn gymhleth a bod angen mwy o wybodaeth am niferoedd y Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru a'u patrymau traddodiadol o symud cyn y gellid gwneud cynnydd.

7. Cynigir y dylai rhan gyntaf yr adolygiad symud yn ei flaen mewn dwy ffordd.

**Cyfarfod â chymuned y Sipsiwn Crwydrol**

8. Yn gyntaf, gan ymgynghori â'r ymgynghorydd arbenigol a'r ymgynghorydd cyswllt, dylid datblygu rhaglen o ymweliadau i gyfarfod ag aelodau o gymuned y Sipsiwn Crwydrol. Dylai'r rhaglen gwmpasu cynifer o agweddau ar gymuned y Sipsiwn Crwydol â phosibl a dylai hyn o leiaf olygu ymweld â safleoedd swyddogol ac answyddogol, safleoedd preifat a chyhoeddus a safleoedd yn y gogledd, y de a'r gorllewin.

9. Grwpiau bach o aelodau'r pwyllgor, sef rhyw ddau neu dri ar y mwyaf, ddylai gynnal yr ymweliadau a byddent yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor. Byddai angen trefnu'r ymweliadau hyn y tu allan i gylch ffurffiol cyfarfodydd y pwyllgor. Tim Wilson fyddai'n trefnu'r cyfarfodydd hyn drwy gysylltu â'r gymuned a'r swyddogion cyswllt sipsiwn lleol.

**Casglu tystiolaeth ysgrifenedig**

10. Ochr yn ochr â'r ymweliadau, bydd yn bwysig manteisio ar arbenigeddau cyfredol. Efallai y gall y swyddog cyswllt lleol roi gwybodaeth ddefnyddiol i'r pwyllgor am batrymau symud ac anheddu presennol a gellid ei wahodd i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.

**Addysg**

11. Mae Adran Addysg y Cynulliad yn edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer plant Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru. Gellid comisiynu papur ar gasgliadau'r arolwg hwnnw i'w gyflwyno yn y cyfarfod ar 26 Mehefin. Ar ôl hynny, efallai y gallai'r pwyllgor gyfarfod â chynrychiolwyr o adrannau addysg awdurdodau lleol i glywed am eu problemau ac i gael enghreifftiau o arfer gorau.

**Iechyd**

12. Fel arfer, y cyswllt cyntaf a gaiff Sipsiwn Crwydrol â'r GIG yw pan fyddant yn mynd at feddygon teulu ac unedau damweiniau ac achosion brys ysbytai. Gellid gwahodd

cynrychiolwyr o'r awdurdodau iechyd a meddygon teulu i roi tystiolaeth am faterion iechyd. Bu'r pwyllgor hefyd yn holi Cyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad ynghylch unrhyw gynlluniau canolog.

13. Cysylltodd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro â'r Clerc mewn ymateb i'r gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda Grwp Iechyd Lleol Caerdydd i geisio sicrhau bod gwasanaethau iechyd sylfaenol yn targedu Sipsiwn Crwydrol er mwyn rhoi'r un cyfleoedd iddynt dderbyn gwasanaethau iechyd â phawb arall ac mae'r Rheolwr Gwasanaethau Gweithredol wedi cynnig rhannu ei brofiad â'r pwyllgor. Gellid gwahodd cynrychiolwyr i gyfarfod yn y dyfodol.

14. Ymatebodd Dr Sylvaine Carr-Hill i'r cais am dystiolaeth ysgrifenedig. Bu'n feddyg cymunedol i Sipsiwn Crwydrol am 20 mlynedd ac mae wedi cynnig rhannu ei phrofiad â'r pwyllgor. Gellid gwahodd Dr Carr-Hill i ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

**Profiad yn Iwerddon**

15. Mae'r pwyllgor wedi gofyn i gynrychiolwyr Cymdeithasau Pobl Grwydrol y cyfarfu â nhw yn Nulyn baratoi papur byr ar y problemau y mae Pobl Grwydrol yn eu hwynebu yn Iwerddon a rhoi unrhyw enghreifftiau o arfer da y maent yn gwybod amdanynt.

**Materion eraill**

16. Bwriad arall yw comisiynu papurau ar y materion canlynol:

- gwybodaeth gan y Cwnsler Cyffredinol am sefyllfa gyfreithiol Pobl Grwydrol, megis effaith y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a defnyddio enghreifftiau o'r gyfraith achosion;
- hawliau'r Sipsiwn Crwydrol sydd am gofrestru eu henwau i bleidleisio a'r problemau y maent yn eu hwynebu; a'r
- wybodaeth sydd ar gael gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegau am Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru.

**Ymchwil a llyfryddiaeth pellach**

17. Mae Rachel Morris o Uned Ymchwil Cyfraith Pobl Grwydrol Prifysgol Caerdydd, a ddaeth i gyfarfod y pwyllgor ar 24 Ebrill, yn paratoi rhestr ddarllen at ddefnydd yr aelodau.

18. Mae Is-adran Cyngor Economaidd y Cynulliad wedi paratoi arolwg o lenyddiaeth "yr hyn sy'n gweithio" mewn cynlluniau addysg ar gyfer Pobl Grwydrol.

**Crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law**

19. Ym mis Chwefror gwahoddwyd pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig

am y gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru, gan gynnwys y problemau a wynebir gan Sipsiwn Crwydrol ac enghreifftiau o arfer da. Daeth tri ar ddeg o ymatebion o sylwedd i law. Ceir crynodeb o'r prif bwyntiau yn atodiad 1. Mae copïau o'r cyflwyniadau ar gael os carai'r aelodau eu gweld. Efallai yr hoffai'r pwyllgor ystyried gwahodd rhai o'r sefydliadau neu'r unigolion hyn i gyflwyno tystiolaeth.

**Rhaglen bosibl**

20. Nid yw'r ymgynghorydd arbenigol wedi rhoi ystyriaeth fanwl i strwythur yr adolygiad hyd yn hyn ond rhwng nawr a dechrau toriad yr haf gallai'r pwyllgor:

| | |
|---|---|
| 22 Mai | gyfarfod â'r ymgynghorydd arbenigol a'r swyddog cyswllt i drafod papur gan Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad ar ddarparu addysg i blant Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru |
| 26 Mehefin | i drafod papur gan Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad ar ddarparu addysg i blant Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru |
| Dyddiadau i'w trefnu (Llun/Gwener) | Grwpiau bach o'r aelodau i gyfarfod ag aelodau o gymuned y Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru |

21. Caiff rhaglen fanylach ei pharatoi ar gyfer tymor yr hydref ar ôl ymgynghori â'r ymgynghorydd arbenigol.

**Argymhelliad**

22. Gwahoddir y pwyllgor i

- nodi penodiadau'r ymgynghorydd arbenigol a'r ymgynghorydd cyswllt;
- ystyried y cynigion ar gyfer casglu tystiolaeth gan gynnwys y rhaglen ym mharagraffau 5-9; a
- nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad y ceir crynodeb ohonynt yn atodiad 1.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

Mai 2002